## CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **12 GORFFENNAF 2011** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 MAI 2011** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Chwefror 2011 hyd at 31 Mai 2011.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Mai 2011:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 24 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 3 |
| Archwiliadau Dilyniant | 10 |
| Archwiliadau Ymatebol | 5 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Mai 2011, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Grant Datgloi Potensial Ysgolion Anghenion Arbennig Gwynedd | Addysg | Adnoddau | A | Atodiad 1 |
| Ysgol Dyffryn Ogwen | Addysg | Ysgolion | A | Atodiad 2 |
| Ysgol Uwchradd Tywyn | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 3 |
| Ysgol y Berwyn | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 4 |
| Defnydd Cyfieithwyr Allanol | Corfforaethol | | Dim Categori | Atodiad 5 |
| Gwirio Dangosyddion Perfformiad | Corfforaethol | | C | Atodiad 6 |
| Rheolaeth Ffonau Symudol | Corfforaethol | | CH | Atodiad 7 |
| Pensiynau - Cyfraniadau gan gyflogwyr | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | Dim Categori | Atodiad 8 |
| System Budd-daliadau - Rheoli Gwybodaeth a Chyfrifiadau | Cyllid | Refeniw | B | Atodiad 9 |
| Trefniadau derbyn arian | Cyllid | Refeniw | B | Atodiad 10 |
| Trefniadau Rheoli Prosiect Galluogi | Darparu a Hamdden | Gofal Cymunedol | A | Atodiad 11 |
| Neuadd Chwaraeon a Phwll Nofio Bro Ffestiniog | Darparu a Hamdden | Hamdden | C | Atodiad 12 |
| Cynllun Lleoli Oedolion | Darparu a Hamdden | Preswyl a Dydd | B | Atodiad 13 |
| Cist Gwynedd | Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | B | Atodiad 14 |
| Llwyddo yng Ngwynedd | Economi a Chymuned | Sgiliau a mentergarwch | B | Atodiad 15 |
| Canolfan Gyswllt Galw Gwynedd | Gofal Cwsmer | Cyswllt Cwsmer | B | Atodiad 16 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Diogelwch Dyfeisiadau Symudol a Pherimedr Rhwydwaith | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | C | Atodiad 17 |
| Mynediad Defnyddwyr Trydydd Parti i'r Rhwydwaith | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | B | Atodiad 18 |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol | Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | Ar draws yr adran | A | Atodiad 19 |
| Trefniadau Rheoli Ansawdd | Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | Ar draws yr adran | B | Atodiad 20 |
| Llwybrau Cyhoeddus | Rheoleiddio | Amgylchedd | B | Atodiad 21 |
| Uned Cludiant Cyhoeddus | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | C | Atodiad 22 |
| Dethol Contractwyr | Ymgynghoriaeth Gwynedd | Ar draws yr adran | B | Atodiad 23 |
| Y Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu - Ffioedd | Ymgynghoriaeth Gwynedd | Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu | B | Atodiad 24 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliadau isod lle cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- **Unedau Iaith** *(Addysg)*. Roedd adolygiad o'r Unedau Iaith wedi ei gynnwys yn rhaglen Archwilio Mewnol 2010/11 ar gais un o aelodau'r Pwyllgor Archwilio. Gwelwyd yn ystod yr archwiliad fod gwariant uniongyrchol ar yr Unedau Iaith (yn ysgolion Llangybi, Maesincla, Cefn Coch, Ysgol Gynradd Dolgellau ac Ysgol Eifionydd) wedi ei osod yn erbyn cyllideb yr Adran Addysg sydd heb ei ddyrannu i'r ysgolion, a fod hwnnw wedi ei ariannu trwy grant Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hyn, gwelwyd trwy brofion archwilio fod yr unedau iaith yn ariannu gwariant ar nwyddau, a thrafnidiaeth disgyblion i'r unedau o'r côd canolog yma. Ar y cyfan, rwyf o'r farn fod rhaniad ddigon clir rhwng gwariant yr unedau iaith a gwariant yr ysgol i liniau'r risgiau arwyddocaol i'r awdurdod. Fodd bynnag, nodir fod uned iaith Ysgol Llangybi yn fwy mewn cymhariaeth â maint yr ysgol nad yw, er enghraifft, unedau Maesincla a Cefn Coch, ac fod nifer disgyblion yn Ysgol Llangybi wedi cynyddu o llai na 50 yn yr 1980au cynnar i 95 erbyn hyn, gyda cynnydd o 20 disgybl – 26% - ers 2000, ac fod angen i'r Adran Addysg fod yn ymwybodol o oblygiadau hyn.

- **Partneriaeth Penllyn** *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*. Mae gwella cydweithio yn un o brosiectau penodol y cyngor o fewn y thema "Amgylchedd o Ansawdd". Mae Partneriaeth Penllyn yn fenter rhwng Cyngor Gwynedd a pum Cyngor Cymuned a Thref o fewn ardal Penllyn i gydweithio mewn ffordd newydd o ddarparu gwasanaethau yn lleol o safbwynt Meysydd Chwarae, Toiledau Cyhoeddus, Dodrefn Stryd, Llwybrau Cyhoeddus a Parciau & tiroedd agored. Yn ystod yr archwiliad edrychwyd ar nifer o benawdau 'lefel uwch' er mwyn sicrhau fod y risgiau y mae Cyngor Gwynedd yn eu hwynebu yn sgil y fenter wedi eu lliniaru yn ôl y disgwyl. Y penawdau hyn oedd Cytundeb, Trefn Lywodraethol, Swyddogaethau a Chyfrifoldebau, Cyfathrebu, Risg, Monitro, Cyllid a Gwerthusiad. Ar y cyfan gwelwyd fod y trefniadau yn gadarn, ond fod lle i wella trefniadau adnabod risgiau, ac fod angen bod yn gliriach ynglyn â'r ffordd o fesur llwyddiant y fenter.

- **Prosiect e-Gaffael** *(Strategol a Gwella)*. Mae system e-Gaffael y Cyngor yn system ar-lein sy'n anelu i wneud arbedion ar y drefn bresennol o archebu a phrosesu anfonebau. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y buddion disgwyliedig o'r system yn realistig ac yn uchafu potensial y system. Gwelwyd fod yr arbedion a amlinellwyd yn yr achos busnes, o ddiffiniad, yn seiliedig ar amcangyfrifon a rhagdybiaethau. Fodd bynnag, gwelwyd bod yr ymchwil a wnaethpwyd gan y Rheolwr Prosiect yn drylwyr ble'n bosib ac yn cynnig darlun teg o'r arbedion gall e-Gaffael ei gyflawni, er bod elfen fawr o risg yn perthyn iddynt. Nid oedd yr archwiliad yma yn cwmpasu gwiriad o'r arbedion sydd wedi eu gwireddu o fewn yr adrannau yn sgil cyflwyno'r system a lleihau'r cyllidebau adrannol yn sgil hynny. Bydd y materion hyn yn cael sylw yn yr archwiliad 'Arbedion Effeithlonrwydd' sydd i'w gynnal yn 2011/12.

2.2.4 Yn nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym Mawrth 2011, gofynnwyd i mi adrodd yn ôl ynglyn â threfn gwaredu safle Meithrinfa Goed Glynllifon. Gallaf gadarnhau fy mod wedi derbyn cais am gyngor gan yr Adran Rheoleiddio yn Rhagfyr 2010 ynglyn â'r drefn tendro ar gyfer gwaredu'r safle. Roedd yr Adran Rheoleiddio wedi penderfynu cau'r Feithrinfa Goed fel rhan o'r cynllun arbedion, ac roedd y Gwasanaeth Eiddo yn gwaredu'r safle, oedd bellach yn ychwanegol i anghenion, yn y modd arferol. Fodd bynnag, roedd yr Adran Rheoleiddio erbyn Rhagfyr 2010 ychydig yn bryderus ynglyn â'r drefn gwaredu. Trafodais y mater gyda swyddogion o'r ddwy uned yn Rhagfyr 2010, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniais roeddwn o'r farn fod y Gwasanaeth Eiddo wedi ymddwyn yn gywir a phriodol, ac nad oedd rheswm i mi ymyrryd yn y broses.

## 2.3 Grantiau

2.3.1 Yn ogystal â'r archwiliadau grant penodol oedd wedi eu cynnwys fel eitemau unigol yn y cynllun archwilio, cwblhawyd adolygiadau o'r grantiau canlynol yn ystod y cyfnod:

- Trefi Taclus *(Rheoleiddio)*
- Cronfa Datblygu Rhanbarthau Ewrop - Prosiect Adfywio Ffisegol yng Ngogledd Cymru *(Rheoleiddio)*
- Cyfalaf Penodol ar gyfer Ardaloedd Adnewyddu Tai *(Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Grant Nofio am Ddim *(Darparu a Hamdden)*
- Rhaglen 5x60 *(Darparu a Hamdden)*
- Cynllun Hyrwyddo Budd-dal *(Cyllid)*
- Cymunedau Diogel *(Strategol a Gwella)*
- Lleihau Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol *(Strategol a Gwella)*
- Cronfa Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau *(Strategol a Gwella)*

2.3.2 Nid yw'r ffaith fod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r grantiau yma yn golygu na fydd archwilwyr allanol o Swyddfa Archwilio Cymru neu gyrff eraill yn cynnal archwiliadau o'r grantiau yma hefyd. Fodd bynnag, disgwylir fod y gwaith y mae Archwilio Mewnol, a'r sicrwydd y bu'n bosib ei ddatgan am yr amgylchedd reolaeth, yn golygu y bydd angen llai o waith archwilio gan y cyfundrefnau hyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu lleihad yn y ffioedd y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei dalu am archwiliadau allanol.

## 2.4 Archwiliadau Dilyniant

2.4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Cytundebau Escrow (System Civica Flare) | Rheoleiddio | Gwarchod y Cyhoedd | **Anfoddhaol** |
| Cytundebau Escrow (CareWorks RAISE, IDOX UNI Form & Capita Academy Housing) | Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | | **Rhagorol** |
| Cytundebau Escrow (System Talis) | Gofal Cwsmer | Llyfrgelloedd | **Derbyniol** |
| Uned Rheoli Cofnodion | Gofal Cwsmer | Gwybodaeth | **Derbyniol** |
| Canolfan Hamdden Plas Silyn | Darparu a Hamdden | Hamdden | **Derbyniol** |
| Canolfan Hamdden Glan Wnion | Darparu a Hamdden | Hamdden | **Derbyniol** |
| Cytundebau Escrow (Open Text DIP & Capita Academy Revenues) | Cyllid | Refeniw | **Derbyniol** |
| Bryn Afon | Darparu a Hamdden | Preswyl a Dydd | **Derbyniol** |
| Rheoli Defnyddwyr y Parth GCSx | Corfforaethol | | **Dim Categori** |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau | Democratiaeth a Chyfreithiol | Cofrestru | **Dim Categori** |

2.4.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.4.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2011**

Gorchmynion Ffyrdd
Neuadd Chwaraeon Bro Ffestining
Gweithio Symudol a Diogelwch y Perimedr
Cytundeb Fframwaith Cynnal Ffyrdd
Gwirio Rhestrau Gweithwyr

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2011**

Diweddaru'r Wefan

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2012**

Uned Cludiant Cyhoeddus
Gwirio Dangosyddion Perfformiad
Rheolaeth Ffonau Symudol

## 2.5 Archwiliadau Ymatebol

2.5.1 Cwblhawyd 5 ymchwiliad ymatebol yn ystod y cyfnod.

- **Dyledwyr Gwasanaethau Cymdeithasol** *(Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol).* Ar gais y Pennaeth Cyllid, cwblhawyd archwiliad ymatebol i'r trefniadau i godi a monitro dyledion Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd hyn yn dilyn cais, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol, i ddileu ôl-ddyledion sylweddol. Gwelwyd fod angen gwella cyfathrebu ar draws y Cyngor er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae Crynodeb Gweithredol yr adroddiad wedi ei gynnwys yn **Atodiad 25**.

- **Llogi Ystafelloedd Cyfarfod Allanol** *(Corfforaethol).* Ar gais y Pennaeth Cyllid, cwblhawyd archwiliad ymatebol i'r trefniadau o fewn y Cyngor ar gyfer llogi ystafelloedd cyfarfod gan y sector breifat, o ystyried anghenion busnes yr Awdurdod, a'r angen hefyd i ddarganfod arbedion ariannol. Mae crynodeb gweithredol yr adroddiad wedi ei gynnwys yn **Atodiad 26**.

- **Cytundeb Maes Parcio Canolfan Menai Bangor** *(Rheoleiddio/Eiddo).* Cynhaliwyd yr archwiliad yma ar gais y Tîm Arweinyddiaeth, yn dilyn adroddiad cyllidebol diwedd trydydd chwarter 2010/11 oedd yn nodi incwm llawer is na'r hyn oedd yn y gyllideb ar gyfer incwm y maes parcio. Roedd hyn oherwydd fod y prydlesai (cwmni Cathco) wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr cyn talu rhent cytunedig i'r Cyngor am y cyfnod ers 1 Ebrill 2009. Mae crynodeb gweithredol yr adroddiad wedi ei gynnwys yn **Atodiad 27**.

- **Taliadau am Adfer/Trwsio Cerbydau** *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* Ar gais un o aelodau'r Pwyllgor Archwilio, adolygwyd y taliadau a wneir i gwmni adfer a thrwsio cerbydau. Edrychwyd ar y taliadau a wnaed i'r asiantaeth adfer yn ogystal ag i fodurdai lleol. Wrth ymchwilio i gyfriflyfr ariannol y Cyngor, gwelwyd fod y Cyngor yn talu tâl aelodaeth blynyddol i'r asiantaeth adfer yn unol â maint y fflyd, ond mai swm gymharol isel ydoedd. Pwrpas y taliad yma yw i gofrestru cerbydau gyda'r asiantaeth adfer fel eu bod yn dod allan i drwsio cerbydau sydd wedi torri i lawr y tu allan i'r sir – nid yw'r taliad yn cynnwys gwaith trwsio. Gwelwyd fod y Cyngor yn derbyn anfoneb unigol pob tro y bydd angen eu galw allan, yn unol ag amodau'r aelodaeth. Gwelwyd hefyd fod y Cyngor yn defnyddio modurdai lleol i nôl lorïau mawr megis lorïau lludw neu "gritters" gan fod gan y modurdai yma "low loaders" addas ar gyfer y gwaith. O ymchwilio yn fanwl i'r taliadau, ni welwyd tystiolaeth o afreoleidd-dra na talu ddwywaith am yr un gwasanaeth i fwy nag un darparwr.

- **Taliad Dyblyg** *(Addysg).* Tynnwyd sylw Archwilio Mewnol gan yr Uned Taliadau fod nifer uchel o anfonebau wedi cael eu pasio ddwywaith gan ysgol. Ymholwyd swyddog gweinyddol yr ysgol, a darganfuwyd ei bod wedi anfon llungopïau o pob anfoneb mewn un swp i'r Uned Daliadau gan ei bod wedi cael ar ddeall fod y swp gwreiddiol wedi mynd ar goll yn y post yn ystod tywydd garw Rhagfyr 2010. Yn y pendraw, cyrhaeddodd y llungopïau yn ogystal â'r swp gwreiddiol, a cafodd y ddau swp eu mewnbynnu i'r system daliadau, lle gafodd un ei wrthod oherwydd ei fod wedi ei bigo i fyny fel un dyblyg. Anfonwyd memorandwm i'r Uned Taliadau a'r Adran Addysg yn amlinellu darganfyddiadau Archwilio Mewnol. Ni ystyrir fod camau pellach yn angenrheidiol.

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Mehefin 2011.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Deddf Diogelu Data - Teledu Cylch Cyfyng *(Corfforaethol)*
- Rheolaeth Cynllun Oriau Ystwyth a "TOIL" *(Corfforaethol)*
- Cynnal a Chadw'r Gaeaf *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Trefniadau ar alwad ac ar ddyletswydd Priffyrdd a Bwrdeistrefol *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Grant Ysgolion Ffocws Gymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru *(Addysg)*
- Ysgolion Cynradd - Rheolaeth Gyllidebol *(Addysg)*
- Iechyd a diogelwch - tripiau ysgol *(Adnoddau Dynol)*
- Cyn-stoc Tai - Arian Dargadw *(Corfforaethol)*
- Gweinyddu Costau Teithio *(Corfforaethol)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- System Taliadau - Ardystio a Cywirdeb Codio *(Cyllid)*
- System Taliadau - Newid Data Sefydlog *(Cyllid)*
- Treth Cyngor - Adennill a Gorfodaeth *(Cyllid)*
- Treth Cyngor - Casgliadau ac Ad-daliadau *(Cyllid)*
- Treth Di-Annedd - Adennill a Gorfodaeth *(Cyllid)*
- Cartrefi Preswyl y Cyngor - Trefniadau Ariannol *(Darparu a Hamdden)*
- Cartrefi Preswyl y Cyngor - Trefniadau Diogelwch *(Darparu a Hamdden)*
- Datblygu Chwaraeon *(Darparu a Hamdden)*
- Grant Cynllun Cyfeirio i Ymarfer Cenedlaethol *(Darparu a Hamdden)*
- Rheolaeth Cronfeydd Answyddogol *(Darparu a Hamdden)*
- Trefniadau TG i aelodau *(Democratiaeth a Chyfreithiol)*
- Treuliau Aelodau *(Democratiaeth a Chyfreithiol)*
- Amgueddfeydd *(Economi a Chymuned)*
- Digwyddiadau *(Economi a Chymuned)*
- Neuadd Dwyfor *(Economi a Chymuned)*
- Rheolaeth Asbestos *(Gofal Cwsmer)*
- Contractau Refeniw Gwasanaethau Cymdeithasol *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Grant Goruchwyliaeth Ddwys ac Arsylwi *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Plant - Maethu *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Trefn Gwyno Gwasanaethau Cymdeithasol *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Dilyniant - Gorchmynion Ffyrdd *(Rheoleiddio)*
- Fflyd y Cyngor - tachographs a ffobiau dosbarthu Disel *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Amgylcheddol - Cynnal y "Gazzetteer" *(Rheoleiddio)*
- Cysoni Incwm Parcio a Dirwyon *(Rheoleiddio)*
- Prosiect Pont Briwet *(Rheoleiddio)*
- Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch *(Rheoleiddio)*
- Caffael Cynaliadwy *(Strategol a Gwella)*
- Gwasanaethau Eiddo - Penodi Contractwyr *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Chwefror 2011 i 31 Mai 2011, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# GRANT DATGLOI POTENSIAL YSGOLION ANGHENION ARBENNIG GWYNEDD
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yma yw gwirio fod yr arian grant yn cael ei ddefnyddio'n gywir ac i'w lawn potensial yn ogystal ag edrych os yw'r derbynwyr gwasanaeth yn gweld budd ohono.

Cwmpas yr Archwiliad

Edrychwyd ar drefniadau cydlynu'r gwaith yn ogystal â sut caiff y ceisiadau eu gwneud a'u hasesu.

Prif Ddarganfyddiadau

Ar y cyfan, gwelwyd fod rheolaeth dda yn nhrefniadau darparu gwasanaeth drwy'r Grant Datgloi Potensial. O holi Penaethiaid rhai o'r ysgolion, gwelwyd hefyd eu bod yn hapus iawn â'r gwasanaeth ac yn ei weld yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, o siarad gyda'r Penaethiaid, gwelwyd nad oedd beth oedd wedi ei nodi yn yr adroddiad interim bob amser yn cyd-fynd â'r gwasanaeth y derbyniodd yr ysgolion. Mae'n ofyn gan y Cynulliad i'r Cyngor ddarparu adroddiad interim iddynt sy'n manylu ar beth wnaethpwyd gyda'r arian grant.

### Barn yr Archwiliad

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Grant Datgloi Potensial Ysgolion Anghenion Arbennig Gwynedd gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# YSGOL DYFFRYN OGWEN
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau yn Ysgol Dyffryn Ogwen er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol ac yn unol â Rheoliadau Ariannol Ysgolion, Cyfarwyddiadau Estyn a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2009/10 a 2010/11 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r ysgol er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 100 rheolaeth fewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn 95 o'r meysydd hyn. Gwelwyd fod trefniadau rhagorol yn bodoli yn yr ysgol er mwyn rheoli a lliniaru risgiau. Mae trefniadau gweinyddol cryf a chadarn yn bodoli yn yr ysgol gyda'r corff llywodraethol yn rhan allweddol o unrhyw benderfyniadau cyllidebol a wneir.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Ysgol Dyffryn Ogwen gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Fodd bynnag, fe hoffai'r archwilwyr gynnig yr argymhellion canlynol:**

- **Dylid codi archeb lle'n bosibl pryd archebir nwyddau neu gwasanaethau ac nid ar ôl derbyn yr anfoneb.**
- **Dylid sicrhau bod staff yn newid eu trwyddedeiriau yn rheolaidd.**
- **Dylai'r ysgol ystyried cael polisi trwyddedau meddalwedd a dylid sicrhau fod pob aelod o staff yr ysgol yn derbyn copi o'r polisi.**
- **Dylid sicrhau fod y ffurflenni sy'n dynodi newid yng nghyrsiau blynyddoedd 12 ac 13 yn cael eu cwblhau pob amser pan fo statws disgybl yn newid.**

## YSGOL UWCHRADD TYWYN
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau yn Ysgol Uwchradd Tywyn er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol ac yn unol â Rheoliadau Ariannol Ysgolion, Cyfarwyddiadau Estyn a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2009/10 a 2010/11 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r ysgol er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 88 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 72 o'r meysydd hyn. Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod yr ysgol yn llogi'r bws allan ar rai adegau i grwpiau sydd ddim yn cael eu diogelu o dan bolisi yswiriant y Cyngor. Hefyd nid yw'r ysgol pob amser yn cydymffurfio â safonau Estyn a Rheolau Gweithdrefnau Ariannol i Ysgolion ac mai'r rheswm am hyn oedd oherwydd nad oedd y Pennaeth a'r Swyddog Gweinyddol yn ymwybodol o'r angen i gydymffurfio â'r safonau a'r rheolau yn y meysydd lle darganfuwyd gwendidau. Penodwyd y Pennaeth a'r Swyddog Gweinyddol i'w swyddi presennol ym mis Medi 2009 a bu iddynt fynegi nad oeddent wedi gweld copi o'r adroddiad archwilio mewnol dyddiedig Hydref 2007.

### Barn yr Archwiliad

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Ysgol Uwchradd Tywyn gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid cwblhau cofnod ysgrifenedig o ddyletswyddau a hawliadau'r corff llywodraethol a'r Pennaeth parthed penderfyniadau ariannol.**
- **Dylai'r corff llywodraethol llawn adolygu'r ffioedd sydd o dan eu disgresiwn yn flynyddol a dylid nodi'r mater yng nghofnodion y cyfarfod perthnasol.**
- **Dylid sicrhau bod cytundebau yn cael eu creu rhwng pob llogwr â'r ysgol cyn dyddiad y gosodiad.**
- **Dylai'r ysgol gysylltu gyda Cwmni Cynnal er mwyn iddynt ddod i'r ysgol i sefydlu trefn fel nad yw'r Pennaeth a'r Swyddog Gweinyddol yn defnyddio'r un rhif defnyddiwr ac yr un trwyddedair i gael mynediad i'r system FMS ac ar yr un amser i drefnu bod o leiaf un swyddog o fewn yr ysgol ar hawl i fedru newid lefel hawliau mynediad staff.**
- **Dylai bod yr ysgol yn cadw rhestr deunyddiadu electronig gyfredol o holl feddalwedd sydd yn bodoli ar bob cyfrifiadur ac dylid cwblhau gwiriadau mewnol cyfnodol i sicrhau fod yr hyn sydd wedi ei gosod ar y cyfrifiaduron mewnol yn cyd-fynd â'r rhestr.**

# YSGOL Y BERWYN
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau yn Ysgol y Berwyn er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol ac yn unol â Rheoliadau Ariannol Ysgolion, Cyfarwyddiadau Estyn a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2009/10 a 2010/11 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r ysgol er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 101 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 81 o'r rheolaethau hyn. Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod gorwariant uchel yn erbyn dau bennawd ar y system FMS gan nad oedd cyllideb ddigonol wedi eu creu ar eu cyfer. Hefyd, gwelwyd nad yw'r Llywodraethwyr yn adolygu'r ffioedd gosodiadau a gwersi cerdd yn flynyddol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Ysgol y Berwyn gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod y Llywodraethwyr yn adolygu'r ffioedd am ddefnydd cymunedol o'r ysgol a'r gwersi cerdd yn flynyddol.**
- **Dylai copi o'r cytundeb gael ei arwyddo a'i ddychwelyd i'r ysgol gan y llogwr cyn i'r cyfnod llogi cychwyn.**
- **Dylai'r ysgol sicrhau fod yr "Oriau Cyswllt dan Arweiniad" ar gyfer pob gweithgaredd dysgu a hawlir yn gywir gan fod y maes hwn yng Nghyfrifiad Blynyddol Ysgolion (CYBLD ôl-16) yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo dyraniadau cyllido.**
- **Dylai'r Pennaeth sefydlu trefn er mwyn sicrhau fod y Penaethiaid Adrannau yn cadarnhau a chymeradwyo unrhyw newid a wneir i weithgaredd dysgu unrhyw ddisgybl yn ystod y flwyddyn.**
- **Dylai'r Pennaeth gynhyrchu rhestr o'r gyrwyr sydd yn gymwys i yrru'r bysiau mini a'i chadw'n gyfredol.**
- **Dylid sicrhau fod yr ysgol yn archwilio tystysgrifau'r gyrwyr dwywaith y flynyddol gan gadw copi fel cofnod bod yr ysgol wedi gweld y tystysgrifau.**

# DEFNYDD CYFIEITHWYR ALLANOL
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw cynorthwyo'r Gwasanaeth Democratiaeth a Chyfreithiol yn eu harolwg o Uned Gyfieithu'r Cyngor. Bydd yr arolwg yn cynnwys adolygu gofynion cyfieithu presennol y Cyngor ynghyd ag asesu'r adnoddau sydd ar gael i ateb y gofynion hyn i'r dyfodol.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad yw adolygu'r gwariant a wneir ar gyfieithwyr allanol ynghyd â dadansoddi gwariant gwasanaethau unigol ar waith cyfieithu uniongyrchol gyda cwmnïau allanol am flynyddoedd ariannol 2008-09, 2009-10 a'r flwyddyn gyfredol hyd yn hyn.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod oddeutu gwerth £125,000 o waith cyfieithu yn cael ei ddyroddi i gyfieithwyr allanol yn flynyddol gyda rhai cwmnïau yn derbyn nifer sylweddol o archebion am waith. Dadansoddwyd y gwariant i wasanaethau unigol ac ymgeisiwyd i ganfod os cysylltwyd â'r Uned Gyfieithu cyn allanoli'r gwaith. Gwelwyd bod canran uchel o'r gwaith ar gyfer darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Wrth gynnal yr adolygiad, gwelwyd nad oedd cysondeb ar draws y Cyngor yn y modd y caiff gwariant ar anfonebau eu cofnodi yn y lejer, sydd yn arwain at ystadegau camarweiniol ac anghyson ynghyd â lleihau gwerth adroddiadau rheolaeth gyllidebol.

Barn yr archwiliad yw nad oes rheolaeth ddigonol yn bodoli dros roi gwaith i gwmnïau cyfieithu allanol oherwydd diffyg polisi pendant gan y Cyngor ac yn sgil yr hinsawdd economaidd bresennol, dylid manteisio ar bob cyfle i wneud arbedion neu i gynyddu incwm.

**Barn yr Archwiliad**

**Dylid ystyried yr argymhellion canlynol fel rhan o'r arolwg:**

- **Dylai bod y Gwasanaeth Democratiaeth yn sefydlu polisi ffurfiol ar gyfer yr Uned Gyfieithu ar gyfer ei gyflwyno i'r Grwp Arweinyddiaeth ac yna i dderbyn ystyriaeth/cymeradwyaeth gan yn y pwyllgor perthnasol er mwyn ei fabwysiadu fel polisi Cyngor Gwynedd. Dylid ystyried cynnwys yn y polisi arfaethedig y dylai pob darn o waith cyfieithu - boed yn ysgrifenedig, cyfieithu ar y pryd a.y.b. gael ei gyfeirio at yr Uned Gyfieithu yn y lle cyntaf a bod y penderfyniad os dylid allanoli'r gwaith yn benderfyniad i'r Arweinydd Tîm Cyfieithu yn seiliedig ar eu hadnoddau staffio.**
- **Dylid rhoi ystyriaeth i sefydlu codau dadansoddiad sydd yn adlewyrchu'r gwir fath o waith a wneir gan gyfieithwyr allanol, h.y. cyfieithu gwaith ysgrifenedig, prawf ddarllen a gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.**

# GWIRIO DANGOSYDDION PERFFORMIAD
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau cywirdeb dangosyddion perfformiad holl adrannau'r Cyngor drwy ddethol sampl o ddangosyddion a gwirio bod papurau gwaith ac unrhyw dystiolaeth berthnasol arall yn bodoli i gefnogi'r canlyniad. Yn ogystal, bydd yr archwiliad yn gwirio bod herio digonol ar y dangosyddion o fewn yr adran, gan yr Arweinyddion Portffolio perthnasol a'r Rheolwyr Cyfrif Perfformiad i sicrhau bod y dangosydd yn berthnasol i amcanion yr adran, bod y targed yn realistig, a bod y dangosydd yn adlewyrchu darlun cywir a theg o'r maes dan sylw.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad yw sicrhau cywirdeb dangosyddion perfformiad holl adrannau'r Cyngor drwy ddethol sampl o draws doriad o ddangosyddion perfformiad y Cyngor, h.y. dangosyddion ar bob lefel, sef y Cynllun Tair Blynedd (C3B), lefel Adran neu ar lefel Uned. Nid yw'r archwiliad yn cwmpasu dangosyddion Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion, gan fod rhain wedi bod yn destun archwiliadau penodol yn ddiweddar.

Prif Ddarganfyddiadau

Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad yw bod diffygion yn bodoli yn y gyfundrefn ar gyfer dangosyddion perfformiad. Mae hyn yn cynnwys dethol dangosyddion amhriodol, goddrychol a diwerth; methiant i sefydlu targedau CAMPUS (**C**yraeddadwy, **A**mserol, **M**esuradwy, **P**enodol, **U**chelgeisiol a **S**ynhwyrol); gwastraff adnoddau ac amser yn casglu a chofnodi data i bwrpas adrodd ar berfformiad yn hytrach na rheoli perfformiad; diffyg ystyriaeth i ansawdd wrth bennu targedau megis y rhai sydd yn seiliedig ar "niferoedd"; dulliau gwahanol o gyfrifo canlyniadau; awgrym o 'gaming' sef ystrywio ffigyrau i ymddangos yn dda yn hytrach na defnyddio'r system i fonitro, herio, ac yn y pen draw i sicrhau gwelliant. Gwelwyd yn ogystal nad oedd herio digonol ar ddangosyddion 'gwyrdd' yn unol â graddfa RAG (Coch, Melyn, Gwyrdd), ac mai drwy gyfrwng cynnal yr archwiliad hwn y gofynnwyd i reolwyr gyntaf am dystiolaeth i gefnogi'r perfformiad a adroddwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Gwirio Dangosyddion Perfformiad gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid herio dangosyddion perfformiad sydd yn rhagori ymhell ar y targed a gwirio bod unrhyw darged yn seiliedig ar yr hyn sydd yn gyraeddadwy ac yn annog cymhelliant dichonadwy.**

- **Dylid monitro cynnydd yn gyson o fewn y flwyddyn er mwyn rhoi gwell cyfle i gyrraedd y targed, lle bo'n rhesymol ymarferol.**

- **Dylid sicrhau nad yw'r amser a'r adnoddau a ddefnyddir yn casglu gwybodaeth ar gyfer dangosydd yn gorbwyso buddiant y dangosydd.**

- **Dylid ailymweld â rhai dangosyddion i sicrhau eu priodoldeb a'u defnyddioldeb (ac eithrio dangosyddion statudol).**

- **Er mwyn amddiffyn credadwyaeth trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor, os nad oes unrhyw ddata cadarn ar gyfer unrhyw gyfnod o fesur perfformiad, dylid nodi hyn yn Ffynnon yn hytrach na defnyddio amcangyfrif di-sail.**

# RHEOLAETH FFONAU SYMUDOL
## Corfforaethol

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod rheolaethau mewn lle ar gyfer archebu, defnyddio a monitro defnydd ffônau symudol y Cyngor.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Adolygu trefniadau gweinyddol ar gyfer ffônau symudol gan sicrhau bod polisi/canllawiau mewn perthynas â defnydd priodol o ffônau symudol. Adolygu proses archebu ffônau symudol, gwirio biliau a sicrhau eu bod wedi cael eu prosesu a'u monitro'n ddigonol. Adnabod os oes unrhyw achosion o daliadau cyfathrebu yn ychwanegol i dderbyn ffôn symudol ac asesu eu priodoldeb.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Nid oedd rheolaeth ddigonol yn y trefniadau ar gyfer archebu a rheoli'r defnydd o ffônau symudol. Mae diffyg canllawiau a pholisi ar gyfer archebu ynghyd â'r defnydd a ganiateir o ffônau symudol y Cyngor. Fel canlyniad, gall swyddogion gamddefnyddio ffônau symudol y Cyngor yn barhaus heb fod yn atebol am unrhyw golledion ariannol a ddioddefir gan y Cyngor. Gwelwyd yn ogystal bod rheolwyr wedi awdurdodi ceisiadau am archebion ffônau symudol ac uwchraddio ffônau heb ystyried yr anghenion busnes dros hynny.
Gwelwyd bod archebion ffônau symudol a phrosesu biliau yn cael eu gweithredu gan wasanaethau eraill ar wahân i'r Uned Cefnogol, ond bod achos busnes dros hyn mewn rhai adrannau. Yn ogystal, nid yw'r trefniadau ar gyfer archebu a phrosesu'r biliau yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn y modd mwyaf effeithiol.
Darganfuwyd hefyd bod nifer o swyddogion y Cyngor wedi archebu mwy nag un teclyn ffôn megis PDA, ffôn symudol a iPhone a hynny wedi'u gymeradwyo gan eu rheolwyr. Gwelwyd hefyd bod taliadau lwfansau ffôn hanesyddol am rentu llinell ffôn gartref yn parhau i gael eu gwneud i rai gweithwyr serch y ffaith bod rhai ohonynt wedi derbyn ffôn symudol. Ym marn yr archwiliwr nid yw'r taliadau yn briodol bellach a byddai eu diddymu yn arbed oddeutu £12,000 y flwyddyn i'r Cyngor.

Mae'r archwilwyr o'r farn bod arbedion ariannol arwyddocaol ar gael petai adolygiad trylwyr yn cael ei gynnal o'r ffônau symudol sydd mewn bodolaeth i asesu os oes eu gwir angen a thrwy gymryd camau priodol i drafod gyda'r cwmni am y posibilrwydd o dderbyn biliau yn electronig a fydd yn lleihau amser prosesu, diddymu camgymeriadau ac yn rhyddhau adnoddau staff.

<u>**Barn yr Archwiliad**</u>

**(CH) Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Rheolaeth Ffonau Symudol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn. Mae prif argymhelliad yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr a chynhwysol o'r trefniadau mewn perthynas â ffônau symudol a chyfarpar data technoleg gwybodaeth i sicrhau bod y gyfundrefn yn gweithredu yn y modd mwyaf effeithlon a chyson a bod unrhyw arbedion - boed hynny yn adnoddau amser neu ariannol - yn cael eu hadnabod a'u gwireddu. Dylid ystyried yn ddwys yr opsiynau o safbwynt rheolaeth dros ffônau symudol. Dylid sicrhau bod canlyniad yr adolygiad a'r penderfyniad ar y ffordd ymlaen yn cael ei adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor Archwilio cyn diwedd blwyddyn ariannol 2011/12.**

# PENSIYNAU - CYFRANIADAU GAN GYFLOGWYR
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Pwrpas yr archwiliad yw sicrhau fod yr holl gyfraniadau sydd yn daladwy gan sefydliadau ac awdurdodau allanol yn cael eu derbyn ar y raddfa gywir ar gyfer y cyfraniad ac o fewn yr amserlen gytunedig a bod unrhyw log ar gyfraniadau hwyr yn cael eu cyfrifo a'u casglu'n brydlon.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad yw adolygu sampl o daliadau cyfraniadau gan amrywiaeth o sefydliadau / awdurdodau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010/11; golyga hyn ymweld â rhai cyrff i wirio eu trefniadau a'u cofnodion.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd yn ystod yr ymweliadau gyda'r amrywiol sefydliadau/awdurdodau a ddetholwyd mai problemau a gwendidau cyffelyb sy'n bodoli o safbwynt cyfrifo cyfraniadau pensiwn y gweithwyr a'r cyflogwr. Yn gyffredinol, roedd y problemau mwyaf yn deillio o ddiffyg ymwybyddiaeth o ba dâl sy'n bensiynadwy ai peidio, yn arbennig mewn perthynas â goramser, taliadau honorariwm a thaliadau ar alwad (*standby*). Darganfuwyd nad oedd rhai sefydliadau yn ymwybodol o sut i ymdrin â chyfraniadau pensiwn ar gyfer cynlluniau aberthu cyflog megis cynllun beicio a thalebau gofal plant - mae hyn wedi arwain at tan-daliadau i'r Gronfa. Darganfuwyd yn ogystal nad oedd y mwyafrif o'r sefydliadau/awdurdodau yn y sampl yn trin cyfraniadau'r cyflogwr yn gywir os yw gweithiwr ar absenoldeb mamolaeth, sydd hefyd yn arwain at tan-daliadau i'r Gronfa. Yn unol â'r Rheoliadau, dylai bod gan gyflogwyr sydd yn cyfrannu i'r Gronfa Bensiwn bolisi eu hunain - gwelwyd nad dyma'r achos.

**Mae'r prif argymhellion sydd yn deillio o'r archwiliad fel a ganlyn:**

- **Dylid atgoffa'r sefydliadau/awdurdodau o'r pwysigrwydd i sefydlu polisi ar gyfer cyfraniadau pensiwn yn unol â Rheoliadau Gweinyddu Pensiynau.**
- **Dylai'r Gronfa Bensiwn ystyried paratoi a dosbarthu taflen sy'n crynhoi'r prif wendidau a ddarganfuwyd yn ystod yr archwiliad, megis sut i drin cyfraniadau cyflogwr o ganlyniad i absenoldeb mamolaeth/tadolaeth/mabwysiadu; taliadau honorariwm, aberthu cyflog a pa dâl goramser sydd yn bensiynadwy.**
- **Dylid ail-ddylunio'r ffurflen TR110 'Taliadau Cyfraniadau Misol Cyflogwyr' i gymryd i ystyriaeth cyfraniadau'r cyflogwr mewn perthynas â gweithwyr sydd ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu.**
- **Dylid ail-ddylunio'r daenlen i gymryd i ystyriaeth cyfraniadau'r cyflogwr mewn perthynas â gweithwyr sydd ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu.**

## SYSTEM BUDD-DALIADAU - RHEOLI GWYBODAETH A CHYFRIFIADAU
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau a rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer rheoli system wybodaeth budd-daliadau a bod y gwaith ar y system yn cael ei ddyrannu mewn modd priodol a gweithredir ar unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn brydlon a chywir.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu effeithiolrwydd trefniadau a rheolaethau'r system budd-daliadau a llif gwaith (system 'Document Image Processing') drwy arsylwi a holi swyddogion sydd â chyfrifoldeb am weinyddu a gweithredu'r system ynghyd â gwirio sampl o gofnodion/dogfennau oddi ar y system a'u croesgyfeirio, os yn berthnasol i system Academy.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu a gweithredu ar ddogfennaeth mewn perthynas â'r system budd-dal. Fodd bynnag, gwelwyd rhai gwendidau mewn meysydd megis stampio dogfennau a ddefnyddir, cyfeirnodau dyblyg a chadw dogfennau o dan glo. Gwelwyd hefyd bod llif gwaith yr uned yn agored i gamddefnydd.

Mae'r Uned wedi buddsoddi mewn system rheoli perfformiad a sicrwydd ansawdd a fydd yn gymorth i adnabod anghenion datblygu a hyfforddi a tan-berfformiad yn ogystal â lliniaru risgiau mewn perthynas â chamddefnydd dosbarthiad y llif gwaith.

Nid yw'r Uned wedi llwyddo i gwrdd â'r targed a sefydlwyd yn y Cynllun Tair Blynedd ar gyfer prosesu ceisiadau budd-dal. I'r perwyl hyn, mae'r opsiynau megis buddsoddi mewn modiwl "Gwireddu ar Sail Risg", sydd eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau, dan ystyriaeth.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yng ngweinyddiaeth System Budd-daliadau - Rheoli Gwybodaeth a Chyfrifiadau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sefydlu dyddiad adolygu arfaethedig/dyddiad gwaredu ar gyfer dogfennau a gedwir ar system DIP, yn ogystal â hysbysu'r Uned Cofnodion o'r dyddiadau yma.**
- **Dylid sicrhau bod cofnodion gyda manylion personol/cyfrinachol yn cael eu diogelu a'u cadw dan glo ar bob achlysur.**
- **Dylid atgyfnerthu'r neges i'r swyddogion budd-dal perthnasol am bwysicrwydd dyddio dogfennau, ynghyd â'r trefniadau mewn perthnyas â chofnodi y gwelwyd y dogfennau gwreiddiol.**

# TREFNIADAU DERBYN ARIAN
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau a rheolaethau priodol ar gyfer derbyn arian mewn lle yn dilyn y penderfyniad i gau cownteri casglu arian.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu sut mae trefniadau a diogelwch incwm a gafodd eu heffeithio fwyaf gan y penderfyniad i gau'r swyddfeydd arian wedi datblygu ers Ebrill 2010 ynghyd ag adolygu gweithrediadau swyddfa gefn arianwyr Caernarfon mewn perthynas â derbyn a chofnodi sieciau.

Prif Ddarganfyddiadau

Dengys profion yr archwiliad bod gwasanaethau a sefydliadau'r Cyngor wedi ymdopi yn gymharol dda ar y cyfan ag ail-drefnu eu gweithdrefnau o ganlyniad i gau'r swyddfeydd arian yn Ebrill 2010. Fodd bynnag, mae'r archwiliad yma wedi adnabod rhai materion sydd angen sylw a byddai tynhau a ffurfioli'r prosesau mewn perthynas â hwy yn gwella'r rheolaethau mewn lle.

Mae angen ffurfioli'r broses o gofnodi ac ymchwilio i achosion pan dderbynnir ffurflenni crynhoi incwm (TR34) yn y Gwasanaeth Incwm ble nad oes incwm perthynol wedi ei gofnodi yn y cyfrif dros dro, oherwydd y gall fod yn achos o incwm wedi mynd ar goll neu dwyll.

Yn ogystal, mae angen ffurfioli'r broses o ymholi gwasanaethau a sefydliadau pan nad oes ffurflen crynhoi incwm yn cael ei derbyn gan y Gwasanaeth Incwm yn dilyn cyfnod rhesymol wedi i'r incwm gael ei drosglwyddo i'r banc.

Gwelwyd ar adeg y gwaith maes fod proses lafurus mewn lle ar gyfer cofnodi sieciau sydd yn cael eu derbyn drwy'r post. Yn dilyn cyhoeddi fersiwn drafft yr adroddiad yma, fe ddyluniwyd a threialwyd proses llawer mwy lliflin o brosesu sieciau. Gwelwyd fod canlyniadau'r drefn newydd yn llwyddiannus a bod rheolaethau priodol yn bodoli ac o ganlyniad fe gymeradwywyd y trefniant.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau derbyn arian gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ffurfioli'r drefn o ymholi sefydliadau am achosion ble nad oes ffurflen crynhoi incwm (TR34) wedi ei derbyn gan y Gwasanaeth Incwm mewn amser rhesymol yn dilyn y bancio, gan gynnig cyngor a chymorth i'r staff cyfrifol yn y sefydliadau yma os oes angen.**

- **Dylid cyflwyno trefn ffurfiol o ymchwilio a chofnodi canlyniadau'r ymchwiliadau i achosion pan dderbynnir ffurflen crynhoi incwm (TR34) ble nad oes incwm perthynol wedi ei gofnodi yn y cyfrif banc.**

- **Mae angen ail-ddylunio'r broses o dderbyn sieciau drwy'r post gan fod y trefniadau presennol yn ymddangos yn ormodol o ystyried cost hyn, a gan nad yw'r holl sieciau yn destun i'r un gyfundrefn beth bynnag.**

# TREFNIADAU RHEOLI PROSIECT GALLUOGI
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod y Prosiect Galluogi wedi cwrdd â'i amcanion a'i bod wedi cydymffurfio gyda Llawlyfr Rheoli Prosiectau y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Sicrhau bod y gwaith papur a dogfennau perthnasol wedi cael eu creu yn y modd priodol ac ei bod wedi cael eu cynhyrchu yn unol â Llawlyfr Rheoli Prosiectau'r Cyngor. Edrychwyd ar y Prosiect o'r cam cyntaf hyd at y cam olaf i weld os yw'r prosiect wedi cael ei gwblhau i'r safon uchaf. Nid yw'r archwiliad yn edrych ar ganlyniadau'r prosiect Galluogi ond yn hytrach ar drefniadau rheolaeth y prosiect.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd engreifftiau cryf o ymarfer da o fewn prosiect Galluogi. Gwelir bod y prosiect wedi cwrdd â'i amcanion a'i bod wedi cydymffurfio gyda Llawlyfr Rheoli Prosiectau'r Cyngor.
Darganfuwyd bod y gwaith papur a dogfennau perthnasol wedi eu creu yn y modd priodol. Gwelir bod y prosiect wedi ei gwblhau i'r safon uchaf.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Trefniadau Rheoli Prosiect Galluogi gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# NEUADD CHWARAEON A PHWLL NOFIO BRO FFESTINIOG
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol yn bodoli yn y Ganolfan er mwyn lliniaru'r risgiau gweithredol, a bod y rheolaethau hyn yn cael eu gweithredu.

Cwmpas yr Archwiliad
Adolygu samplau o drafodion ariannol ar gyfer flwyddyn ariannol 2009/10 a dechrau'r flwyddyn ariannol 2010/11 yn ogystal ag edrych ar y rheolaethau sy'n bodoli ar gyfer rheoli stoc. Sicrhau hefyd bod y Ganolfan yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion iechyd a diogelwch perthnasol.

Prif Ddarganfyddiadau
Ar y cyfan, gwelwyd yn ystod yr archwiliad nad oedd achosion o reolaethau da yn bodoli mewn trefniadau ariannol, trefniadau gwirio offer a threfniadau arwyddo dogfennau. Fodd bynnag, gwelwyd bod reolaeth dda ar gyfer y cyfrif ad-daliadau ac iechyd a diogelwch yn y Ganolfan.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Neuadd Chwaraeon a Phwll Nofio Bro Ffestiniog gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod adroddiadau 'Daily Analysis Report', 'Point of Sale Transactions Cancelled' a 'Record Refunded' yn cael eu cynhyrchu a'u gwirio yn unol â'r canllawiau / gweithdrefnau, a bod yr adroddiadau yn cael eu harwyddo a'u dyddio sydd yn cadarnhau bod y gwiriadau cywir wedi eu cyflawni.**

- **Dylid sicrhau bod adroddiad ad-daliadau yn cael eu cynhyrchu a'i adolygu yn fisol, ac yna ei arwyddo a'i dyddio i gadarnhau bod y gwiriadau cywir wedi eu cyflawni.**

- **Dylid sicrhau bod y derbynebau ad-daliadau yn cael eu cadw ac yn cael ei llofnodi gan y cwsmer ac aelod o staff ar bob achlysur.**

- **Dylid sicrhau bod adroddiadau logio mewn ac allan yn cael eu cynhyrchu a'i gwirio yn fisol, ac yna ei arwyddo a'i ddyddio i gadarnhau bod y gwiriadau cywir wedi eu cyflawni.**

- **Dylai dau swyddog sy'n ymglymedig â'r broses bancio lofnodi'r Ffurflen Cofnodi Bancio a'r llyfrau talu i mewn i'r banc ar bob achlysur i gadarnhau fod y wybodaeth yn gywir.**

- **Dylai pob ymdrech gael ei wneud gan swyddogion i sicrhau cywirdeb yr arian a gasglwyd â'i gyfeirebu i'r côd cywir yn y cyfriflyfr, fydd yn lleihau'r defnydd o'r cyfrif gwarged / diffyg.**

- **Dylid sicrhau bod adroddiadau "Point of Sale Transactions" yn cael ei gynhyrchu a'i adolygu yn unol â'r canllawiau / gweithdrefnau, a bod yr adroddiad yn cael ei arwyddo a'i ddyddio i gadarnhau bod y gwiriadau cywir wedi eu cyflawni.**

# CYNLLUN LLEOLI OEDOLION
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Cwblhawyd yr archwiliad yma ar gais Pennaeth Darparu a Hamdden, er mwyn adolygu gweinyddiaeth y Cynllun Lleoli Oedolion ar drosglwyddiad rheolaeth y cynllun o'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio'r drefn weinyddol sy'n gysylltiedig â Chynllun Lleoli Oedolion a lle'n briodol gwirio sampl o ffeiliau er mwyn sicrhau :-

- bod polisi/gweithdrefnau wedi ei dogfennu a'i gymeradwyo yn y modd cywir;
- bod swyddogaeth a chyfrifoldebau wedi eu diffinio yn eglur;
- bod camau yn cael eu dilyn sy'n sicrhau bod gofalwyr o'r safon cywir yn cael eu comisiynu;
- bod camau yn sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth yn cyrraedd y meini prawf ac yn cael eu paru gyda gofalwyr mwyaf addas; bod ansawdd y gwasanaeth yn cael ei fonitro yn rheolaidd;
- bod rheolaeth gyllidebol ddigonol;
- bod trefn briodol o archebu, derbyn a thalu am y gwasanaeth
- a bod cofnodion a dogfennau yn cael eu diogelu.

Prif Ddarganfyddiadau
Ar y cyfan gwelwyd bod treftniadau priodol mewn lle, ond bod rhai agweddau angen sylw. Cynhaliwyd profion archwilio ar 35 o feysydd rheolaeth mewnol yn y gwasanaeth. Dangosodd y profion bod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 32 o'r meysydd hyn, ond roedd rhai materion yn ymwneud â diffinio cyfrifoldebau angen sylw.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn y Cynllun Lleoli Oedolion gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Mae angen i swyddogion perthnasol o Gwasanaethau Cymdeithasol a Darparu a Hamdden gyfarfod a dod i gytundeb ar bwy sydd yn gyfrifol am reoli a monitro arian personol y defnyddwyr gwasanaeth mewn gwahanol amgylchiadau, ac yna cytuno ar ganllawiau pendant yn dilyn y cyfarfod hwn yn nodi'n glir cyfrifoldebau swyddogion.**

- **Awgrymir rhannu'r broses newydd o archebu gyda'r holl swyddogion perthnasol cyn diwedd blwyddyn ariannol 2010/11, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gamddealltwriaeth.**

- **Mae angen i swyddogion Uned Cynllun Lleoli Oedolion dderbyn caniatad swyddogol yn cadarnhau eu hawliau fel swyddogion awdurdodedig cyn gynted â phosibl drwy lenwi ac arwyddo ffurflen arwyddo awdurdodedig.**

**CIST GWYNEDD**
**Economi a Chymuned**

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol yn bodoli ar gyfer gweinyddu a thalu grantiau Cist Gwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio sampl o grantiau a weinyddwyd yn flwyddyn ariannol 2009/10 a 2010/11.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd bod rheolaeth gyffredinol dda yng ngweinyddiaeth grantiau Cist Gwynedd gan fod bellach system bas-data wedi ei sefydlu gan yr Uned ar gyfer cofnodi manylion y ceisiadau grant, y taliadau a'r gwaith monitro. Er hynny, gwelwyd bod angen cryfhau ychydig ar y drefn o ddilyn fyny ar y grwpiau sydd ddim yn anfon mewn y dogfennau priodol o fewn yr amser penodol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Cist Gwynedd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid addasu'r system bas-data i rwystro aelod o staff rhag gallu mewnbynnu dyddiad yn y blwch "Dyddiad Cwblhau" sydd cyn dyddiad a nodwyd yn y bwlch "Dechrau'r Cynllun" yn y sgrin 'Monitro Grant'.**
- **Dylid ceisio gweld os yw'n bosibl cadw copïau o'r llythyrau gwreiddiol ar y system bas-data, os ddim yna dylid ychwanegu blwch i'r sgrin 'Llythyrau a Anfonwyd' sydd yn nodi dyddiad pryd gynhyrchwyd yr ohebiaeth.**
- **Dylid sicrhau bod trefn yn bodoli o ddilyn fyny ar achosion lle nad oes tystysgrifau yswiriant priodol wedi cael eu derbyn**
- **Byddai'n ymarfer da, os yw'r grwpiau yn nodi unrhyw allbynnau targedau ar eu ffurflenni monitro, eu bod yn anfon tystiolaeth gefnogol gyda'r ffurflenni monitro ac nid yn disgwyl hyd nes bod y cynllun wedi cwblhau. Os na dderbynnir y dystiolaeth briodol bod trefn mewn bodolaeth o gysylltu â'r grwpiau i ofyn iddynt am yr wybodaeth.**
- **Byddai'n ymarfer da ychwanegu cymal i'r ffurflenni monitro yn nodi ei bod yn angenrheidiol i'r grwpiau anfon mewn tystiolaeth o sut maent wedi defnyddio'r grant i sicrhau gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd os yn berthnasol i'r cynllun.**

# LLWYDDO YNG NGWYNEDD
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod rheolaeth fewnol ddigonol yn y broses o gynnig grant i ymgeiswyr, talu'r arian grant i'r cytundebwyr ac o hawlio'r arian gan y Cynulliad.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu ffeiliau'r Cyngor a hawliadau gan y cytundebwyr gan sicrhau fod monitro mewnol priodol gan yr Adran. Bwriedir hefyd i edrych ar drefniant y Cyngor o hawlio'r arian yn ôl gan y Cynulliad.

Prif Ddarganfyddiadau

Ar y cyfan, gwelwyd fod rheolaeth fewnol dda'n bodoli yn y broses o weinyddu'r cynllun Llwyddo yng Ngwynedd. Y prif faes lle nad oedd y rheolaeth mor gryf â'r disgwyl oedd wrth gadw ffeiliau sy'n cynnwys manylion personol ymgeiswyr, megis enw, cyfeiriad, manylion banc ayyb. Gwelwyd nad oedd y ffeiliau yma'n cael eu cadw o dan glo a bod posib i unigolion anawdurdodedig gael mynediad iddynt.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Llwyddo yng Ngwynedd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid fod cofnodion yn cael eu hysgrifennu o gyfarfodydd paneli sgorio.**
- **Dylid sicrhau fod y sgoriau unigol yn cael eu trosglwyddo'n gywir i'r tabl i gyfrifo'r cyfartaledd.**
- **Dylid fod cysondeb yn y dull o gyfrifo'r arian grant sy'n cael ei dalu allan h.y. fod y cyfanswm rhataf ar un anfoneb yn cael ei ddefnyddio (unai'r amcanbris neu'r gwir gost).**
- **Dylid sicrhau fod ffurflen de minimis wedi ei llenwi'n gywir gan bob ymgeisydd.**
- **Dylid diweddaru'r ffurflen datganiad de minimis i ddangos y rheol gywir.**
- **Dylid nodi'r dyddiad cynharaf sydd wedi ei stampio fel dyddiad derbyn ar anfoneb fel y pwynt treth wrth lenwi'r cyfarwyddyd talu (slip pinc neu felyn).**
- **Dylid sicrhau fod y ffigyrau cywir yn cael eu nodi yn y ceisiadau i'r Cynulliad.**
- **Dylid cadw'r ffeiliau sy'n cynnwys manylion personol yr ymgeiswyr dan glo.**
- **Dylai swyddogion fynychu hyfforddiant Diogelu Data.**

# CANOLFAN GYSWLLT GALW GWYNEDD
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod gan ganolfan gyswllt y Cyngor, 'Galw Gwynedd', drefniadau priodol yn eu lle ar gyfer rheoli a delio â'r galwadau y mae'n eu derbyn.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r trefniadau sydd mewn lle yn y ganolfan gyswllt er mwyn rheoli a delio â galwadau gan y cyhoedd ynghyd â chofnodi gweithgareddau ar gyfer y gwasanaethau sydd wedi trosglwyddo'u swyddogaethau ymholi /ceisiadau i'r ganolfan gyswllt.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer rheoli galwadau'r Cyngor yn y ganolfan gyswllt a bod trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli a monitro targedau'r ganolfan gyswllt. Gwelwyd bod rheolaeth briodol ar gyfer rheoli gweithgareddau staff a diogelu gwybodaeth. Yn ogystal, gwelwyd bod gan y ganolfan gyswllt systemau cyflawn ac addas mewn lle ar gyfer delio â cheisiadau gwasanaethau eraill sydd wedi trosglwyddo i'r ganolfan megis ceisiadau Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cofrestryddion ayb. Fodd bynnag, gwelwyd bod diffyg cytundebau lefel gwasanaeth rhwng y gwasanaethau a chydnabuwyd hyn gan Reolwr y Ganolfan Gyswllt a fynegodd y bydd yn symud ymlaen i sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer y gwasanaethau hyn i sicrhau bod yr holl swyddogion cysylltiedig yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac i alluogi darpariaeth gwasanaeth gwell i'r cyhoedd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yng ngweinyddiaeth Canolfan Gyswllt Galw Gwynedd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sefydlu cytundebau gyda'r gwasanaethau i gynnwys elfennau megis targedau ar gyfer cwblhau'r ceisiadau/gweithgareddau sydd wedi eu creu fel bod y ganolfan gyswllt yn ymwybodol o beth yw'r dyddiadau gweithredu disgwyliedig fel y gallant fonitro bod y ceisiadau yn derbyn sylw'n brydlon ac i sicrhau gwasanaeth o ansawdd i'r cyhoedd.**

- **Dylid sicrhau bod cytundebau lefelau gwasanaeth yn cael eu sefydlu ar gyfer holl wasanaethau sydd wedi trosglwyddo eu ceisiadau drosodd i'r ganolfan gyswllt a bod y cytundebau'n cael eu hadolygu'n flynyddol.**

# DIOGELWCH DYFEISIADAU SYMUDOL A PHERIMEDR RHWYDWAITH
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Pwrpas yr archwiliad hwn yw adolygu'r mesurau rheoli sydd mewn grym i liniaru'r risgiau diogelwch sy'n deillio o ddefnyddio dyfeisiadau symudol (Cymorthyddion Digidol Personol (PDAs) a gliniaduron) i gael mynediad i'r rhwydwaith corfforaethol.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad hwn yn cynnwys adolygu dulliau cael mynediad, ffurfweddu dyfeisiadau symudol, dilysu defnyddwyr a dyfeisiadau, diogelwch dyfeisiadau a chynnal a chadw cofnodion.

Prif Ddarganfyddiadau

Amlygodd yr archwiliad feysydd risg y bydd angen ymdrin â hwy.

Mae angen mabwysiadu mesurau gwirio pwynt terfyn yng nghyswllt pob dyfais allanol sy'n cael mynediad i'r rhwydwaith er mwyn sicrhau y gosodwyd y gofynion gwaelodlin ymhob un o'r dyfeisiadau hynny (e.e. y meddalwedd gwrth-ddrwgweddau diweddaraf). Mae'r Gwasanaeth TG wedi adnabod y prif faterion ac wrthi'n gwerthuso ei ofynion a'i adnoddau cyn prynu meddalwedd addas.

Mae angen mabwysiadu gweithdrefn ar gyfer adolygu logiau mynediad ar gyfer dyfeisiadau symudol fel y gellir dod o hyd i unrhyw ddyfeisiadau coll ac adfer ac ailddosbarthu unrhyw ddyfeisiadau na ddefnyddir.

Mae angen ail-ffurfweddu ffonau symudol sydd â mynediad i'r we fel eu bod yn cael eu ffiltro yn yr un modd â phob defnyddiwr arall.

**Barn yr Archwiliad**

**(C)** **Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd yng nghyswllt â diogelwch gwaith symudol a pherimedr rhwydwaith gan fod rheolaethau sydd angen eu gweithredu. Mae prif argymhelliad y Cynllun Gweithredu fel a ganlyn:**

- **Os yw unigolion angen cael mynediad i'r rhwydwaith gan ddefnyddio offer sy'n medru llwytho deunyddiau i fyny i'r rhwydwaith ond nad yw'r offer hwnnw yn eiddo i Gyngor Gwynedd, ni ddylid caniatáu mynediad o'r fath ond drwy weinydd adfer ("remediation server") a fyddai'n llwytho neu'n diweddaru'r priodweddau (gwrth-firysau ac ati) y mae ar ddyfeisiadau Cyngor Gwynedd eu hangen cyn cysylltu**

# MYNEDIAD DEFNYDDWYR TRYDYDD PARTI I'R RHWYDWAITH
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad
Pwrpas yr archwiliad oedd gwerthuso'r mesurau rheoli oedd yn eu lle ar gyfer mynediad trydydd parti at y rhwydwaith.

Cwmpas yr Archwiliad
Adolygwyd y polisiau a'r gweithdrefnau ar gyfer mynediad cyflenwyr allanol at y rhwydwaith.

Prif Ddarganfyddiadau
Nododd yr archwiliad bod polisi a gweithdrefnau wedi'u sefydlu ar gyfer mynediad defnyddwyr trydydd parti at y rhwydwaith. Mae dulliau ffurfiol yn eu lle er mwyn gwneud cais i gael mynediad a chaniatáu mynediad.
Canfuwyd rhai agweddau fyddai angen sylw pellach er mwyn gwella'r mesurau rheoli.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir mynegi sicrwydd rhannol ar "Fynediad Defnyddwyr Trydydd Parti at y Rhwydwaith" gan bod mesurau rheoli yn eu lle, ond mae rhai agweddau ohonynt y gellir eu gwella. Dyma brif argymhellion yr adroddiad:**

- **Ar ddiwedd y dydd, dylid gwirio er mwyn adnabod unrhyw gysylltiadau Citrix sydd dal yn agored, a dylid gwirio'r rhain yn erbyn y cais am newid drwy TopDesk er mwyn pennu a oes dal angen y cysylltiad. Dylid terfynu unrhyw gysylltiadau a adwaenir fel rhai nad oes eu hangen mwyach er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r trwyddedau Citrix sydd ar gael.**

- **Dylid defnyddio'r teclyn Citrix AUDITLOG i wirio pa bryd mae defnyddwyr o bell yn mewngofnodi ac yn allgofnodi oddi ar weinyddwyr Citrix. O bryd i'w gilydd, dylid cymharu'r amseroedd hyn â'r ceisiadau am fynediad a wnaed gan y cyflenwyr allanol, er mwyn gwirio nad ydynt yn parhau wedi'u cysylltu am fwy o amser nag sydd raid.**

- **Dylai cyflenwyr allanol orfod rhoi manylion mwy penodol ynghylch pa wrthrychau system a addasir yn ystod sesiwn gynnal a chadw neu sesiwn gefnogi.**

- **Dylid gweithredu prosesau gwirio cyfanrwydd ffeiliau i sicrhau mai dim ond y ffeiliau a'r cyfarwyddiaduron disgwyliedig sydd wedi'u creu, eu dileu neu eu haddasu yn ystod sesiynau trydydd parti.**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
## Gwasanaethau Cymdeithasol

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw rhoi sicrwydd bod y drefn a ddilynwyd wrth baratoi Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydymffurfio â deddfwriaethau ac yn seiliedig ar ymarfer da ac yn cynnig proses glir ar gyfer casglu tystiolaeth.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Cwmpas yr archwiliad yw adolygu'r prosesau sydd yn eu lle er mwyn paratoi'r Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn 2009/10 a blynyddoedd dilynol, er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth ac yn seiliedig ar ymarfer da drwy gymharu adroddiadau cyfatebol ar draws Cynghorau Cymru.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Gwelwyd yn ystod yr archwiliad fod y broses o lunio Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cymdeithasol wedi ei gwblhau yn unol â Fframwaith Cyflwyno Adroddiadau Blynyddol SSIA Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad terfynol yn cynnwys yr holl waith cefndirol a wnaethpwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y broses o'i lunio, yn y meysydd mynediad at wasanaeth a hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Fodd bynnag, cynigir yr argymhellion canlynol:**

- **Er mwyn ehangu ar brosesau rheoli perfformiad, gellir ystyried crybwyll archwiliadau mewnol terfynol sydd wedi eu cwblhau o fewn y flwyddyn dan sylw.**

- **Dylid cywiro'r camsillafu sydd yn adroddiad 2009/10 a sicrhau bod gwiriadau yn cael eu cynnal cyn cyhoeddi adroddiadau terfynol yn y dyfodol.**

# TREFNIADAU RHEOLI ANSAWDD
## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad

Gellir diffinio ansawdd fel "darparu gwasanaeth sydd yn addas i bwrpas". Mae'n bwysig cofio fod "ansawdd" yn cael ei ddylanwadu gan yr adnoddau sydd ar gael i wasanaeth. Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod ymarfer da yn cael ei gyflawni ar gyfer sicrwydd ansawdd Gwasanaeth Cymdeithasol a bod yr holl gamau yn cael eu cyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael ar draws y Gwasanaeth.

Cwmpas yr Archwiliad

Sicrhau bod trefn a swyddogion mewn lle, sy'n golygu bod y gwaith o archwilio ansawdd yn fewnol yn cael ei flaenoriaethu'n briodol. Sicrhau bod y cylch o rheoli ansawdd wedi cael eu gwblhau ar gyfer bob archwiliad e.e.

- Gosod safonau clir ar gyfer gwaith a deilliannau ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth;
- Monitro ansawdd y gwaith a derbyn barn defnyddwyr y gwasanaethau;
- Casglu negeseuon lle nad yw safonau yn cael eu cyrraedd ac adnabod enghreifftiau o ymarfer da;
- Gweithredu gwelliannau wedi'i selio ar ddarganfyddiadau / lledaenu ymarfer da ar draws y gwasanaeth; ar cam olaf
- Negeseuon yn cael eu bwydo'n ôl i ddefnyddwyr, gofalwyr a staff.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelir bod gan wasanaethau plant a gwasanaethau oedolion drefniadau rheoli ansawdd eu hunain yn bennaf. Gwelir bod ansawdd y gwaith gwasanaethau plant o safon dda gan fod swyddog mewn swydd llawn amser yn gyfrifol am gyflawni'r gwaith archwiliadau. Ar y llaw arall, gwelir bod ansawdd yn cael ei ddylanwadu gan yr adnoddau sydd ar gael i wasanaeth. Gwelir mai'r adnoddau sydd gan y gwasanaethau oedolion yw archwilio ffeiliau a goruchwyliaethau. Fodd bynnag, gwelir bod gwendidau mewn rhai materion ar draws y gwasanaeth ond fod y broses o adnewyddu materion ansawdd yn cael eu trafod mewn grŵp newydd sydd wedi ei sefydlu sef grŵp Awdit, Ansawdd a Pherfformiad.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Trefniadau Rheoli Ansawdd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod y gwasanaeth yn creu strwythur ffurfiol ar gyfer swyddogion sy'n ymwneud a threfniadau rheoli ansawdd.**
- **Dylid sicrhau bod y Gwasanaeth yn sefydlu gweithdrefnau ar gyfer llinellau atebolrwydd ac wedi ei dosbarthu gyda'r holl swyddogion.**
- **Awgrymir bod swyddogion sydd yn cyflawni gwaith sicrwydd ansawdd yn annibynnol o'r gwaith sy'n cael ei archwilio.**
- **Dylid sicrhau bod y gwasanaeth yn defnyddio meini prawf eglur wrth gyflawni'r gwaith o asesu ansawdd.**

# LLWYBRAU CYHOEDDUS
## Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw adolygu prosesau gwaith yr Uned Hawliau Tramwy drwy sicrhau fod gweithdrefnau mewn lle i ddelio â gohebiaethau ymatebol yr Uned a bod y gyllideb cynnal a chadw llwybrau yn cynrychioli y gwerth gorau i'r Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio'r broses o weinyddu a gweithredu ar ohebiaeth sy'n cyrraedd yr Uned gan gynnwys edrych ar y drefn o gofnodi, ffeilio ac ymateb i geisiadau. Yn ogystal gwirio effeithlonrwydd gwariant o gyllideb cynnal a chadw er mwyn sicrhau bod gan yr Uned gynllun penodol i ddefnyddio'r gyllideb yn effeithlon a'u bod yn derbyn y gwerth gorau o'r gwariant a wneir ar lwybrau cyhoeddus Cyngor Gwynedd.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd ar y cyfan bod rheolaethau mewnol da yn bodoli wrth weinyddu dyletswyddau Hawliau Tramwy. Y prif fannau ble welwyd fod angen tynhau'r trefniadau yw:

- Bod yr Uned yn rhoi trefniadau mewn lle i ddelio gydag achosion sy'n anodd eu datrys ac sy'n agored am sawl blwyddyn.
- Mae angen i reolwyr Adran Rheoleiddio geisio integreiddio yr Uned Hawliau Tramwy i'r Adran gan fod llawer o systemau gwaith a meddylfryd y swyddogion yn parhau i fod gyda'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.
- Mae angen cynnal a chadw rhestr gymeradwy o gontractwyr yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau yr Uned Hawliau Tramwy gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid penderfynu ar y drefn fwyaf priodol ac effeithlon (er mwyn osgoi dyblygu gwaith) o dracio gohebiaeth yr Uned Hawliau Tramwy – boed hynny yn gorfforaethol neu ar daenlen bwrpasol gan yr Uned. Er hyn mae angen parhau i sicrhau fod gohebiaeth yn cael ei stampio â dyddiad derbyn.**

- **Dylid sicrhau fod pob swyddog yn ymwybodol o beth sydd angen ei nodi ar y daenlen ymholiadau. Yn ogystal, dylid sicrhau ei fod yn cynnwys ceisiadau am wasanaeth e.e. cau llwybr dros dro, fel y gellid cadw trefn ar geisiadau neu ymholiadau sydd angen eu hateb.**

- **Dylid fod taenlen yn cael ei chreu i restru holl ffeiliau'r Uned sy'n nodi cyfeirnod, dyddiad agor, teitl / disgrifiad byr, dyddiad cau a lleoliad.**

- **Dylid cymryd camau i geisio cau hen achosion. Yn ogystal, dylid ystyried adrodd ar unrhyw gais sydd wedi bod ar agor ers dros gyfnod penodol e.e. 6 mis, yn y Tîm Rheoli neu i'r Rheolwr Gwasanaeth Amgylcheddol fel y gellid monitro'r cynnydd.**

- **Dylai fod cysondeb gweinyddol rhwng yr ardaloedd gan gynnwys yn y dull o ffeilio.**

# UNED CLUDIANT CYHOEDDUS
## Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod trefniadau ar gyfer gosod cytundebau de minimis cludiant cyhoeddus yn unol â Deddf Trafnidiaeth Cymru, fod cyfiawnhad am y cytundebau a bod cytundebau ffurfiol wedi ei arwyddo rhwng y Cyngor a'r gweithredwyr gwasanaeth.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Cwmpas yr archwiliad fydd adolygu sampl o gytundebau de minimis cludiant cyhoeddus er mwyn sicrhau eu bod yn gyfreithlon ac wedi eu dyfarnu mewn modd tryloyw.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Dechreuwyd ar yr archwiliad hwn ym mis Awst 2010, ond oherwydd nifer o faterion yn gysylltiedig â'r Uned Cludiant Cyhoeddus a dynnwyd i sylw'r archwiliwr gan swyddogion o'r Uned, mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu darganfyddiadau'r archwiliwr yn ogystal â'r wybodaeth hynny mae'r swyddogion wedi ei rannu gyda'r archwiliwr. Yr hyn sy'n amlwg o'r archwiliad yw bod yr Uned yn mynd drwy drawsnewidiad sylweddol o ran swyddogion a chyfeiriad. Roedd y cyn Uned yn cael ei staffio a'i reoli gan swyddogion oedd yn gyn-weithwyr a gydag arbenigedd o'r diwydiant bysiau; erbyn heddiw mae dynameg staff a sgiliau'r Uned yn wahanol.

Er bod yr archwiliad yn amlygu gwendidau a welwyd wrth osod cytundebau drwy drefn de minimis, mae'r archwiliwr yn cydnabod fod nifer o'r argymhellion yn mynd i gymryd amser i'w gweithredu, oherwydd hyd y cytundebau cyfredol yn bennaf. Fel mae'r adroddiad yn nodi mae gorchudd cludiant cyhoeddus yng Ngwynedd yn ymddangos yn ffafriol - yr hyn oedd yn absennol oedd tystiolaeth a chyfiawnhad i ddangos sut roedd y swyddogion wedi cyrraedd at y sefyllfa hynny.

Mi fydd rhaid i'r Uned sicrhau bod strategaeth tymor hir a chynlluniau gwaith manwl yn cael eu datblygu er mwyn sicrhau fod yr Uned yn gallu ymateb i'r her yn effeithlon. Gwelwyd mewn adroddiad i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd (27/01/2011) bod yr Adran wedi gosod blaenoriaethau i'r Uned

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn yr Uned Cludiant Cyhoeddus gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid adolygu cytundebau de minimis er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig y gwerth gorau am arian i'r Cyngor.**
- **Dylid sicrhau bod cyfiawnhad digonol i roi cymhorthdal de minimis i gwmniau fel nad yw Cyngor Gwynedd yn cael eu cyhuddo o ffafriaeth at rai cwmniau.**
- **Dylid ail-atgoffa swyddogion o drefniadau mewnol yr Uned i gwblhau cytundebau (h.y. dim ond y Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd i arwyddo cytundebau dan £50,000) a hefyd trefn seilio cytundebau Cyngor Gwynedd ar gyfer gweithiau dros £50,000. Wrth gyfrifo cytundeb dylid cyfrifo gwerth hyd y cytundeb yn hytrach na gwerth taliadau dan y cytundeb am un flwyddyn.**

# DETHOL CONTRACTWYR
## Ymgynghoriaeth Gwynedd

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefn Ymgynghoriaeth Gwynedd o ddethol contractwyr yn effeithiol a thryloyw.

Cwmpas yr Archwiliad
Cwmpas yr archwiliad yw edrych ar waith sy'n cael ei gomisiynu gan yr ochr sifil a disgyblaeth eiddo ac adeiladwaith. Adolygir trefn pwrcasu contractau gwerth uchel (dros £50,000) a'r trefniadau gogyfer pwrcasu gweithiau bychan (gwaith hyd at £50,000).

Prif Ddarganfyddiadau
O'r archwiliad yma, gwelwyd fod nifer o fesurau rheoli risg digonol yn bodoli, ond gwelwyd hefyd fod angen tynhau ar y rheolaethau mewnol mewn rhai amgylchiadau. Y prif fannau lle welwyd fod angen tynhau'r trefniadau yw:

- Yr angen i hysbysebu'r rhestr fer mewn man perthnasol.
- Fod prisiau amcanbris sy'n llawer is na'r prisiau tendr yn cael eu hadolygu
- Tendrau'n cael eu hysbysebu'n briodol a bod o leiaf pythefnos yn cael ei roi i gontractwyr ddychwelyd eu tendr.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Dethol Contractwyr gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid gweinyddu Rhestrau Cymeradwy yn unol â pharagraff 24 o'r Rheolau Gweithdrefn Contractau; ar gyfer contractau lle'r amcangyfrif y gwerth i fod yn £50,000 neu lai yn unig y gellir defnyddio Rhestrau Cymeradwy.**

- **Dylid sicrhau bod amcangyfrif am waith yn cael ei weld fel proses angenrheidiol mewn trefn caffael a bod swyddogion yn gallu cyfiawnhau eu dadansoddiad o'r amcan bris.**

- **Dylid cynhyrchu adroddiad tendr ar gyfer pob prosiect fel bod y cleient yn ymwybodol pan fo prisiau tendr yn dod yn ôl yn wahanol i'r amcanbris.**

- **Dylai'r Adran Ymgynghoriaeth sicrhau fod cleientiaid (o fewn y Cyngor) yn ymwybodol o'r angen i ddilyn Rheolau Gweithrdrefn Contractau'r Cyngor wrth lunio rhestr fer i dendro.**

- **Dylid sicrhau fod pob tendr yn cael ei hysbysebu'n briodol.**

- **Dylid sicrhau fod y cwmnïau sy'n cael eu dewis i wneud gwaith i Gyngor Gwynedd yn ariannol hyfyw.**

- **Dylid sicrhau fod y cwmnïau sy'n derbyn gwaith i'r Cyngor wedi eu cofrestru â CHAS neu gyffelyb.**

- **Dylid sicrhau mai cwmniau addas yn unig sy'n cael eu dethol i gwblhau gweithiau i'r Adran Ymgynghoriaeth.**

# Y GWASANAETH RHEOLAETH ADEILADU - FFIOEDD
## Ymgynghoriaeth Gwynedd

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau'r system Rheolaeth Adeiladu Cyngor Gwynedd yn gyson a bod rheolaeth fewnol ddigonol ar gyfer derbyn a phrosesu ffioedd Rheolaeth Adeiladu.

Cwmpas yr Archwiliad

Llunnir yr adroddiad drwy gwblhau profion archwilio ar sampl o geisiadau Rheolaeth Adeiladu a dderbyniwyd a phroseswyd gan yr Uned Rheolaeth Adeiladu yn y flwyddyn ariannol 2010/11, system gyfrifiadurol APAS a Cyfriflyfr Cyngor Gwynedd.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 24 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 16 o'r rheolaethau hyn. Y prif wendidau a welwyd wrth gynnal yr archwiliad yw nad oedd y ddau newid diweddaraf i'r ffioedd Rheolaeth Adeiladu wedi eu cymeradwyo gan Fwrdd y Cyngor a bod adegau ble nad oedd arian yn cael ei dalu i mewn yn brydlon. Gwelwyd oediad hefyd cyn bod anfonebau yn cael eu codi ar gyfer Taliadau Archwiliadau a Thaliadau Hysbysebiad Adeiladu.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn yr Uned Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu - Ffioedd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Rheolwr Rheolaeth Adeiladu ystyried sefydlu trefn cofnodi yr amser mae'r swyddogion yr Uned yn ei gymryd i weithio ar bob cais er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu o fewn yr oriau sydd wedi ei glustnodi i bob cais.**

- **Dylid sicrhau fod unrhyw newid i'r ffioedd Rheolaeth Adeiladu yn cael eu cymeradwyo yn unol a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.**

- **Dylai'r Uned Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu dderbyn adroddiadau yn fisol er mwyn eu galluogi i fonitro'r ceisiadau sydd wedi eu cyfeirio yn ôl.**

- **Os oes angen monitro'r incwm a gynhyrchir am Reolaeth Adeiladu fesul ardal dylid sicrhau fod y "Cost Centre" cywir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr ardaloedd, neu fel arall dylid ystyried creu un "Cost Centre" ar gyfer Gwynedd.**

- **Dylai'r Cymhorthyddion Technegol Gweinyddol dalu'r arian a dderbynnir i mewn o leiaf unwaith yr wythnos.**

- **Dylai'r Uned Incwm/Dyledwyr ddyrannu'r incwm o'r cyfrif 'Dros Dro' i'r cyfrif perthnasol yn y cyfriflyfr mor fuan ag sydd bosibl gan fod yr Uned Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu yn dibynnu ar y wybodaeth yn y cyfriflyfr fod yn gyfredol er mwyn iddynt allu monitro'r incwm a gynhyrchir ganddynt.**

- **Dylid sicrhau fod anfoneb yn cael ei chodi yn syth pryd dderbynnir rhybudd bod y gwaith ar y safle/adeilad yn cychwyn.**

# ARCHWILIAD YMATEBOL
# DYLEDWYR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
## Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Cynhaliwyd archwiliad arbennig ar gais y Pennaeth Cyllid ar drefniadau gweinyddu ac adennill y Cyngor mewn perthynas ag ôl-ddyledion y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn darganfod y rhesymau pam fod anfonebau a dyledion yn parhau i sefyll. Bydd yr archwiliad yn ceisio adnabod unrhyw anawsterau yn y broses adennill a gwneud argymhellion i gryfhau gwendidau mewn rheolaethau.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Dadansoddi'r holl anfonebau sy'n ddyledus i'r Gwasanaethau Cymdeithasol hyd at 31/03/2010 er mwyn gwirio trefniadau gweinyddu ac adennill dyledion y Cyngor.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Echdynnwyd manylion dyledwyr Gwasanaethau Cymdeithasol o'r cyfriflyfr ariannol a darganfuwyd bod oddeutu £1.9m o ôl-ddyledion yn ddyledus i'r Cyngor gan gyn-gleientiaid a chleientiaid presennol. Gwnaethpwyd ymholiadau ar sampl o'r dyledwyr i geisio darganfod paham bod y dyledion yn parhau yn ddyledus ac unrhyw weithrediad i adfer y dyledion. Cydnabyddir bod llawer o'r achosion yn gymhleth a bod sawl achos yn unigryw oherwydd natur y maes. Fodd bynnag, darganfuwyd fod diffyg cyfathrebu rhwng Gwasanaethau wedi bod yn ffactor allweddol yn y methiant i adfer a gweithredu yn brydlon ac effeithlon ar ddyledion ynghyd â'r methiant i gydymffurfio â chytundebau lefel gwasanaeth. Serch ymdrechion i wella cyfathrebu yn y gorffennol gan gynnwys pryniant meddalwedd arbenigol, ymddengys bod llawer o waith angen ei wneud i sefydlu trefniadau a chyfundrefnau effeithlon.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd yng ngweinyddiaeth trefniadau adfer ôl-ddyledion y Gwasanaethau Cymdeithasol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. Mae prif argymhellion yr archwiliad fel a ganlyn:**

- **Dylai swyddogion priodol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Cyfreithiol sefydlu cyfarfod i drafod y broses o osod arwystl cyfreithiol ar eiddo fel bod yr holl bartïon yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'r trefniadau gweithredol.**

- **Mae'n hanfodol i'r Cyngor weithio fel tîm, ar draws y gwahanol adrannau, wrth ymdrin ag adennill ôl-ddyledion. Rhaid sefydlu fframwaith ôl-ddyledion sy'n amlinellu dyletswyddau pawb sy'n rhan o'r broses adennill.**

- **Rhaid magu diwylliant ble mae cyfathrebu effeithlon rhwng gwasanaethau yn sicrhau bod swyddogion yn cael eu diweddaru ar sefyllfa cyfredol pob achos, yn arbennig y cam nesaf, drwy ddatblygu system sy'n cofnodi manylion pob dyled sy'n parhau i sefyll a'r camau sydd wedi, ac angen, eu cymryd a pwy sy'n gyfrifol. Yn absenoldeb system cofnodi ffurfiol, gellir sefydlu cyfres o gyfarfodydd amserol rhwng yr unedau i drafod y sefyllfa ddiweddaraf ymhob achos.**

- **Unwaith bydd penderfyniad yn cael i'w wneud i ysgrifennu dyled i ffwrdd, dylid sicrhau ei fod yn cael ei osod ar restr dileu'r Pennaeth Cyllid yn brydlon.**

# ARCHWILIAD ARBENNIG
# LLOGI YSTAFELLOEDD CYFARFOD ALLANOL
## Corfforaethol

Cefndir

Ymhellach i sylwadau gan rai aelodau, cynhaliwyd archwiliad arbennig ar gais y Pennaeth Cyllid ar drefniadau a'r costau ynghlwm â chynnal cyfarfodydd mewn sefydliadau allanol i'r Cyngor ac yn benodol i'r defnydd a wneir o ystafell gyfarfod sydd ym mherchnogaeth cwmni preifat.

Bwriad Yr Archwiliad

Adolygu'r defnydd a wneir o ystafelloedd allanol, y costau ymglymedig ac os oedd dewis amgen addas o ystafelloedd cyfarfod y Cyngor ar gael ar y dyddiadau perthnasol ynghyd â dadansoddi'r gwariant a wneir ar gynnal cyfarfodydd mewn sefydliadau allanol.

Cwmpas Yr Archwiliad

Echdynnu o'r cyfriflyfr ariannol y gwariant a wnaed am hurio ystafell gyfarfod benodol ynghyd â chanfod os oedd ystafell addas ar gael o fewn adeiladau'r Cyngor ar y pryd. Yn ogystal, echdynnu manylion gwariant a wnaed ym mlynyddoedd ariannol 2008/09, 2009/10 a 2010/11 hyd at ddyddiad yr archwiliad ar gynnal cyfarfodydd mewn sefydliadau allanol.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae amryw o swyddogion y Cyngor yn ffafrio talu am logi ystafelloedd cyfarfod mewn sefydliadau allanol yn hytrach na defnyddio ystafelloedd y Cyngor. Gwelwyd fod y gwariant yma wedi lleihau dros y tair mlynedd diwethaf, ond wrth ystyried y pwysau sydd ar y Cyngor i leihau costau, ni ellir cyfiawnhau'r cyfan o'r gwariant.

**Barn yr Archwiliad**

**Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau llogi ystafelloedd cyfarfodydd mewn sefydliadau allanol. Ni ddarganfuwyd twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth, ond gwelwyd bod amryw o wariant dianghenraid wedi'i wneud wrth logi ystafelloedd allanol tra bod ystafelloedd cyfarfod pwrpasol y Cyngor ar gael ar y pryd. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Yn sgil yr hinsawdd economaidd bresennol, dylid atgoffa swyddogion y Cyngor i gynnal cyfarfodydd a chynadleddau, os yn bosibl, o fewn swyddfeydd y Cyngor yn hytrach nag o fewn sefydliadau allanol, yn enwedig gan fod amryw o ystafelloedd cyfarfod y Cyngor wedi derbyn buddsoddiad sylweddol ar welliannau yn ddiweddar.**

- **Dylai'r Uned Hyfforddi barhau i geisio lleihau'r defnydd a wneir o ystafelloedd gan gwmnioedd sector breifat drwy ddefnyddio swyddfeydd y Cyngor, cyn belled a bo modd.**

- **Dylid atgoffa swyddogion i logi ystafelloedd mewnol sydd yn ddigonol at bwrpas h.y. llogi ystafell i 20 ar gyfer 15-20 a chynnal cyfarfodydd mewn swyddfa yn hytrach nag ystafell gyfarfod os yw'r nifer sydd i fynychu yn gymharol isel.**

- **Dylid atgyfnerthu'r neges i swyddogion o'r pwysigrwydd i osgoi talu am nwyddau neu wasanaethau o flaen llaw os yn bosibl oherwydd yr effaith dichonol ar lif arian y Cyngor.**

# CYTUNDEB MAES PARCIO CANOLFAN MENAI BANGOR
## Rheoleiddio/Eiddo

Bwriad yr Archwiliad

Yng nghyfarfod y Grŵp Arweinyddiaeth ar 10/11/2010 cyflwynwyd adolygiad cyllideb refeniw o'r ail chwarter gan y Pennaeth Cyllid. Adroddwyd bod colli £108,000 o incwm rhent yn sgil methiant cwmni Cathco wedi arwain at orwariant o £81,000 yng nghyllideb Meysydd Parcio. Oherwydd hyn gofynnwyd i Archwilio Mewnol adolygu natur cytundeb ar gyfer Maes Parcio Canolfan Menai, Bangor.

Cwmpas yr Archwiliad

Mae'r adroddiad yn adolygu'r cytundeb brydles ond hefyd yn archwilio'r drefn arweiniodd at y gytundeb gyda Cathco a'r trefniadau dilynol er mwyn sicrhau bod y darlun cywir yn cael ei amlinellu.

Prif Ddarganfyddiadau

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad oedd tryloywder yn y broses negodi. Roedd y Cyngor wedi defnyddio Prisiwr arbenigol ac roedd y swyddog perthnasol wedi cyfathrebu ar bob cam allweddol gyda'r Pennaeth Gwasanaeth neu/a'r Cyfarwyddwyr Strategol. Gwelwyd fod yr opsiynau rhesymegol wedi cael ystyriaeth yn yr adroddiad aeth i'r Bwrdd ar 31/01/2006. Aelodau etholedig Pwyllgor Ardal Arfon oedd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol yn unol â'r Cyfansoddiad. Fodd bynnag, gwelwyd y gwendidau isod wrth adolygu'r broses yn ehangach:

- Nid oedd unrhyw un wedi cymryd cyfrifoldeb am y cytundeb yn dilyn ymddeoliad y cyn-swyddog er bod cymal yn y brydles yn nodi bod y Cyngor i rannu yr elw o unrhyw arbedion cyfalaf o adeiladu'r maes parcio;
- Nid oes tystiolaeth i ddangos bod asesiad cyllidol trylwyr wedi ei wneud ar gwmni Cathco er mwyn asesu hyfywdra ariannol y cwmni;
- Mae gwendid sylfaenol yn y brydles am fethu cynnwys dyddiad pryd roedd y Cyngor i anfonebu'r tenant am y rhent;
- Bu diffyg wrth asesu risg y cytundeb gan swyddogion gan fod y brydles yn rhoi'r argraff gyfreithiol mai ôl-ddyled yw'r rhent ("in arrears") am y maes parcio. Yn ogystal nid oes cymal yn y cytundeb yn delio yn benodol gyda'r ased (maes parcio aml lawr) os yw'r cwmni yn mynd yn fethdalwyr;
- Mae'n wendid fod anfonebau am rent tymor hir yn gyfrifoldeb swyddog yn hytrach na bil cylchol yn y system ariannol;
- Mae diffyg cydlynu ar y trafodaethau am ddyfodol maes parcio Canolfan Menai yng Nghyngor Gwynedd ar hyn o bryd.

**Barn yr Archwiliad**

**Barn yr archwiliad yw bod gwendidau sylfaenol yn y brydles gyfreithiol rhwng Cyngor Gwynedd a Cathco a diffyg yn nhrefniadau codi anfoneb am rent y brydles. Nid oedd posibl rhagweld methiant y cwmni er bod amheuaeth am gryfder ariannol Cathco yn ystod y cyfnod negodi. Fodd bynnag, mae maes parcio Stryd y Deon ym Mangor yn well ased heddiw nag yr oedd yn 2007. Mae'r prif argymhellion yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid rhoi dyddiad taladwy rhent mewn unrhyw brydles rhwng Cyngor Gwynedd a 3ydd parti.**

- **Er mwyn cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Ariannol, dylid rhoi cymal safonol mewn cytundebau prydles Cyngor Gwynedd i dderbyn rhent o flaenllaw heblaw bod rheswm digonol i dderbyn rhent fel ôl-ddyled.**